C 104
15 = 1507/20

DARLUNIAD
GRAS,
A
SERCHIADAU NATUR;

Yn gweithio mewn SIOMEDIGAETH, OFN, GALAR a HIRAETH, ym mhrofiadau Mrs. *Margaret Lloyd*, Gwraig Mr. *William Lloyd*, Pregethwr yr Efengyl, yn achos Claddedigaeth Mab Bychan iddi, oddauti *Dec* Mlwydd Oed, o'r FRECH-WEN, yr hwn oedd yn Blentyn Glan, Call a Hawddgar, ac yn meddu wrth bob arwyddion, Wirionedd Gras, ac yn dwyn Tystiolaeth i bawb ai gwelai, iddo huno yn yr ARGLWYDD yn Mis *Ebrill*, 1783.

AT BA UN Y CHWANEGWYD,

Rhai GWERSI ar FARWOLAETH
JOHN EVANS,
Pregethwr yr Efengyl, yr hwn a fu Farw yn Mis *Mawrth*, 1784.

A

Rhai GWERSI ar FARWOLAETH
WILLIAM JOHN,
O *Llywele-Mawr*, Pregethwr yr Efengyl, yr hwn a ymadawodd ar Ddydd Sul y 10*fed* o *Ebrill*, 1785.

Gan WILLIAM WILLIAMS.

ABERHONDDU,
Argraffwydd gan WM. a GEO. NORTH.
Lle y gellir cael, Y MESURWR CYFFREDINOL,
YR AIL ARGRAFFIAD.

Darluniad Gras, &c.

1 P'ODD cas angau yn llyn awdurdod
I wiſgo ei gledde ar ei glun?
A thrywanu yr hên a'r ieuangc,
Heb drugaredd ar yr un?
Clydo plwyfau lawr heb arbed,
Troi teuluodd llawen iawn
Yn afonydd mawr o ddagrau;
A griddfannau forau a 'nawn.

2 Troi mynwentydd glâs yn frynar,
A phriddellau cochion mawr,
Cyrph y meirw megis hadau,
Yno yn cael ei rhoddi lawr;
Prin gall plant i chwareu bellach,
Prin y gallant gerdded cam,
'Ddautu'r Eglwys fawr heb ſengu
Ar eu Tad neu ar eu Mam!

3 Ac o'r diwedd daeth i *Henllan*,
Tŷ gweinidog 'fengyl hedd,
Ac a laddodd yno blentyn
Garodd pawb a welai ei wedd;
Pingcyn ieuangc, glâs leſeuyn,
Y blodeuyn glana ei ryw,
Dorrodd e' yn ddidrugaredd
Yno lawr o dir y byw.

4 Siomedigaeth ddwfn danllyd,
Ydoedd hyn i bawb ynghyd;
Ond yn benna i rhai hynny
Ag y rhedoedd arno eu bryd;

Tad

Tad a Mam ſy'n perthyn neſa',
Tad a Mam ſy'n cael y clwy',
O's bydd angau i ddwyn ymaith
Un o'u heppil dyner hwy.

Ond y nefoedd ſydd yn trefnyd,
Arfaeth gadarn bia'r dydd;
Ac nid a 'r hyn roddwydd iddi
O'i chadwynau hi fyth yn rhydd;
'Nol ei threfn mae yn digwydd,
Gariad dwyfol yntau gwg,
Ing a chyſtudd, lles a llwyddiant,
Parch ac amarch, da a drwg.

Ac am hynny angau drawodd
Daffi Lloyd wrth arch y nef;
Ac doedd dyn allaſau attal
Dim o'i fraich gadarnaf ef;
Nid oedd Phiſic, nid oedd Medſwn,
Nid oedd Meddyg o un rhyw,
Allſai gadw'r anal funud,
Rhagor nag arfaethodd Duw.

Hi, y FRECH, ydoedd y cleddau,
Gafodd afael ar ei waed,
Berwodd trwy ei wthi tyner,
Chwyddodd, poethodd, heb naccâd;
Yn ei fynwes hi lettuoedd,
Cym'rodd yno afel gref,
Nis gorphwyſodd nes cael caued
Holl bibellau ei anal ef.

Clywai ei galon fach yn gweithio,
Gydâg egni, gydâ brys,
Gwelai'r tarth yn codi fynu
Yn glofen niwl oddiwrth y chwys;
Y mae pibau'i freſt yn canu
Gydâ rhyw orcheſtol dôn,
Ac mae ei yſbryd gwan yn gweiddi
Yn daer am gwmpni'r addfwyn OEN!

'Nawr mi wela *Lloyd* ei hunan,
Er cadarned yw ei ras,
Yn ymdrechu i guddio ei ofid,
Ond yn methu ei gadw e' maes;

Trymder wedi ei lwyr orchfygu,
Angau wedi rhoi'r fath glyw,
'Madel â'i anwylaf blentyn,
Heb ei weled bellach mwy.

10 Ond mae'm ffanſy yn tebygu,
Gwelai'r Fam yn ddiſtaw draw,
Yn gwrthadlu âg angau creulon,
Mewn rhyw ofn, ſynn, a braw;
Etto yn mentro ymreſymmu,
Methu rhoi rheſymmau bant,
Ceiſio attal blaen ei gleddau,
Daro anwylaf un o'i phlant.

11 Fel y iâr adeiniog ofnus,
Pan b'o hi'n gweld y barcit mawr,
Mewn rhyw ddigllon rwyſg yn diſgyn
Ar ei chywion mân i lawr,
Yn gorcheſtu hyd yr eitha
Gadw ei heppil gwrion gwan,
Ac er ymdrech uwch ei gallu,
Etto codir un i'r lan.

12 Felly hithau'r Fam alarus,
'Drychwch ar ei hymdrech mawr,
Credu, anghredu, llefain, griddfan,
Ar ei thraed ac ar y llawr,
'Angau, angau, p'odd deſt yma,
'A oedd neb ond *Daffi Llwyd*,
'Trwy ardaloedd ehang *Caio*,
'I ti 'nawr yn felus fwyd?

13 'Y mae yn gyfyng ar fy yſbryd,
'Trial chwerw ddaeth i'r tŷ;
'Does i ryw le allo'th ddiodde,
'Gad fy mhlentyn bach i mi;
'O's ti leddi *Daffi* anwyl,
'Dyna wedyn fydd fy nghân,
'Darfu mhleſſer, darfu'm iechyd,
'Aed y ddaear fawr ar dân.'

14 Daccw hi'n cwympo fel yn farw,
Ar y gwely wrth ei draed,
Ac yn gweiddi o ddyfnder calon,
'O fy Arglwydd! O fy Nhad!

'Attal

‘ Attal angau i daro mhlentyn,
‘ Fy anwyl blentyn, anwyl yw,
‘ Ac o's traid, O gwna fi'n fodlon,
‘ Ti dy hunan yw fy Nuw!

‘ Rho i mi allu i ddal i fynu,
‘ Trwm digydmar yw fy nghroes;
‘ 'Madel â'r hwn garodd f' enaid,
‘ Yn moreuddydd hardd ei oes;
‘ 'Nawr fe'm ſiomwyd hyd yr eitha',
‘ Marw fi, o's marw fe!
‘ A droiff gwaidd Mam gyſtuddiedig,
‘ Ddim o arfaeth fawr y Ne'?

‘ O gad iddo o's rhaid mado,
‘ Gael dy gwmpni perffaith pur,
‘ Gydâ myrddiwn o'r nn oedran
‘ Sy' heddyw yn y ſanctaidd dir;
‘ Gad i finnau ar fyr ei weled,
‘ Sicr wyf fyrhau fy oes,
‘ Wedi ei olchi yn wynn a'i gannu
‘ Fry yn nwyfol waed y groes.

‘ O na alle fy yſbryd ddringo,
‘ Gydâg ef yn awr i'r lan,
‘ Fel y gallwn weld derbyniad
‘ Yn y nef i mhlentyn gwan;
‘ Mi ymborthwn ar y meddwl
‘ Hyfryd hynny nes doi dydd,
‘ O'm haneirif wag feddyliau
‘ Blin trafferthus fynd yn rhydd.'

Yſbryd Ffydd yn atteb Mam DAFFI LLOYD *yn nyfnder ei hofn a'i hiraeth, ac yn ei goleuo mae Angel oedd yr Angau a gafodd ei anfon i ddwyn ei Mab adre, a bod ganddo hawl ddiſigl i'r Nefoedd.*

O diſtawa ferch y nefoedd,
Nid dy eiddo di yw'r dyn,
Sydd yn gorwedd mewn trwm gyſtudd,
Ar y gwely wrth dy glun;

Rhodd ro'w'd i ti gan y Ieſu,
Ac dderbyniaiſt yn dy gol,
Ond mae'r amſer yn terfynu,
Rhaid it heddyw roi e' 'nol.

19 Angel yw, er gelwir ef Angau,
'R oedd e' gynne oflaen y faingc,
Gydâ myrddiwn o rai diſglair,
Yn cydgordio'r nefol gaingc;
Ac fe gafodd *writ* i ddyfod
Yma oddiwrth yr orſedd fawr,
Ac ni fedd e' nemmawr amſer,
Nes i'r *cloc* i daro'r awr.

20 Cofia, cofia, wraig hiraethlon,
Nid digofaint yn dy Dduw,
Ond rhyw gangen, er mae chwerw,
O drag'wyddol gariad yw,
Dwyn dy blentyn o wlad pechod,
Cyſtudd, gofid, trais, a gwae,
I lawenydd pur o hawddfyd,
Sy'n drag'wyddol yn parhau.

21 Oni chredu gwrando ei eiriau
Nefol ar ei wely cur,
Bryd y clywaiſt ras yn ſwnio
Yn fwy nefol, yn fwy clir?
Mae pob gair ſy'n d'od o'i enau,
Yn tyſtio ei fod e'n ffrynd i'r ne',
Gad e', gad e', fyned adre',
Byddi ar fyrder gydâg e'.

22 Mae ei oleu fel henafgwr,
Callach, doethach, neb o'i oes,
A phob darn o'i ymadroddion,
Sy'n dyrchafu gwaed y groes;
Gwrando'r effaith iraidd hyfryd,
Sy' ar bob gair ſy'n d'od i maes,
Mae e'n yfed, nag amheua,
'Nawr o ffynnon dwyfol ras.

23 Gwrando'r gair mae'n dweud wrth *tady*,
'*Darfu, darfu!* O fy Nhad!
'Ni ellwch chwi na neb rhyw ddynion,
'Roi i mi heddwch na iachad;

'At

'At fy Arglwydd 'rwyf fi'n edrych,
'Iesu, Iesu, ti dy hun
'All fy ngwneid i mewn mynedyn
'Bach, y gwir hapusaf ddyn.'

23 A oedd dy glustiau ddim yn clywed
Sŵn y friw ddrilliedig lef,
Oedd gan henaf wyr yr eglwys,
Tros dy blentyn gwan i'r nef;
Onid oeddent yn gafaelu,
Ac yn gwrthod pob neccad?
Ac yn derbyn tyst drachefn,
Iddiw ganu yn y gwaed.

24 Ti gai ei weld e' cyn pen nemawr
O fewn murriau'r ddinas bur,
Sydd â'i goleu fel maen *Iaspis*,
Gwrthfawroccaf gloyw clir,
Yno 'n yfed ffynnon bywyd,
Ac yn trachdio'r dwyfol hedd,
Hyd y borau delo i fynu,
Y corph caiff orwedd yn y bedd.

Mam DAFFI LLOYD *yn atteb, a Chariaa Natur yn ymorchestu ymddarostwng i ewyllys yr* ARGLWYDD.

25 'Angel Duw 'rwy'n ceisio cwympo,
'Rwyf fi'n ceisio ufuddhau,
'Ond mae'r saeth sy'n lladd fy Mhlentyn,
'Yn ein clwyfo ninnau ein dau;
'Gwel fy Mhriod accw'n griddfan,
'Gwel ei ysbryd drylliog prudd,
'Darllen sy nghystuddiau inne,
'Wrth y nentydd sy' ar fy ngrydd.

26 'Ond o's rhaid i Mhlentyn 'mado,
'Un peth yw a nal i i'r lan,
'Mod i'n gwel'd arwyddion eglur
'Bod y NEFOEDD yn ei ran!
'Gorsedd bywyd! derbyn Blentyn,
'Golch e'n wyn mewn dwyfol waed;
'Rho'w'd erfynniau trosdo ganwaith,
'Gan ei Fammy fach a'i Dad.

27 ‘ Daccw'r anal bron a 'mado,
‘ Iesu derbyn ef i'r lan ;
‘ Ffarwel i ti, anwyl! anwyl!
‘ Byddai gydâ thi yn y man!
‘ Ni fu'r bedd erioed mor hyfryd,
‘ Ag 'rwy'n ei phrofi 'n awr,
‘ Am fod anwyl Fab fy mynwes,
‘ Ai ddisgynfa iddi lawr.'

Cyngor y BARDD *i Mrs.* MARGARET LLOYD, *yn fuan ar ol Claddu ei hanwyl Fab.*

28 Wraig addfwynaf paid a ŵylo,
Yfaist heddyw o'r finig sûr,
Ac o bustl cas a'r wermod,
Gnigwyd gynt i'th BRYNWR pur;
Y mae pob peth sy'n dy gwrddid
Yn bur ddyblith nefol faint,
A'th gymhwyso bob yn 'chydig
I gymmanfa bur y Saint.

29 Y mae'n fendith nid y lleia',
I ti gladdu un o'th bîl;
Yfed un cespaned chwerw,
Sydd yn well nag yfed mîl;
Pa un orau mynd o'th Blentyn
Mewn i'r bywyd o dy gôl,
Neu yntau ei wel'd e' ctto'n griddfan
Tan gystuddiau sydd yn ol?

30 Darfu dy berthynas iddo,
Clymau daear oll i gyd,
Sy'n diflannu megis cwmwl,
Gynta'r air i maes o'r byd;
Enw gwyr ac enw gwragedd,
Enw rhieni a phlant nid yw
Ddim o fewn y nefoedd auraidd,
Canys stat angylaidd yw.

31 Darfu dy ofal di am dano,
Ac na chadw feddwl mwy,
Dy fod di yn perthyn iddo
Yn agosach nag y'nt hwy;

Llef

Llef am ras i rhai ſydd gartre',
Ac am iddynt gael y lle,
Pan b'o eu horiau yn terfynu
Yn y bywyd a gas e'.

32 Ac wrth rodio yn Mynwent *Caio*,
Syllu ac edrych ar y bedd;
Na ddoid hiraeth i'th orchfygu,
Na newidied ddim o'th wedd;
Diolch i dy BRYNWR tirion
Am it' gael dwyn un i'r byd,
Ag ſydd gydâ mil mwrddiwnau
Yn canu'r telynau aur ynghyd.

33 Does tuag adref Chwaer anwylaf,
At y lleill o'th eppil mân,
Yn y Bibl boed dy ddarllen,
Haleluia boed y gân;
Taro'th droeten yn y wharthol,
Marchog gydâ *Lloyd* i maes,
O ffair *Rhôs* i *Aberteifi*,
I yfed âir y cenfôr glâs.

34 A gweddia'n daer i'r nefoedd
I dy gadw yn dy le,
Rhag it rwgnach byth yn erbyn
Rhagluniaethau chwerw'r ne',
Cadw'th yſbryd war bob ton,
Hynny a bereiddiaeth waed,
Fil yn rhagor nag un meddyg
Etto gawd mewn tre' na gwlad.

35 Ffarwell Wraig gareiddia bellach,
'Rwy'n dy garu tan dy groes,
Cerdd ymlaen boed hi ar dy yſbryd,
Yntau yn ddydd neu yntau'n nos;
Na fyfuria am ſydd yma,
Nid yw'th ſiwrnau ddim yn faith,
Does a diangc orau galloſt,
Fi fydd gynta ar ben fy nhaith.

MARWNAD

MARWNAD
JOHN EVANS.

1 MAE'r medylwyr yn dihenghyd,
Nef fydd yn ei galw i'r lan;
Fwy fwy beunydd yw'r cynhaiaf,
Maefydd aeddfed fy'n mhob man,
Arglwydd danfon weithwyr ffyddlon,
Ydau fy'n defpuno'n fawr,
Cyfod gant o'r llwch i fyny,
Am bob dwfen roift i lawr.

2 'Nawr fe ddarfu *Yaith* ni ymdaith,
Trwy'r holl wyntoedd, gwlaw a gwres,
Weithiau yn eithafoedd *Cymru*,
Weithiau at ei artre yn nes,
Weithiau ar fynyddau oeron,
Megis hên *Elias* gynt,
Mewn ymladdfa 'nawr ar gafod,
Yn y man a'r ftorm o wynt.

3 'Rwy'n ffanfio gwel'd ei wyneb,
Heddyw'n mynd o'r *Bala* noeth,
Tua'r traethydd mawr twyllodrus,
Ac i wynebu'r confor glâs,
Tros lochfeion mawr o eira,
A rhewogydd cedyrn, cry',
I ddadfeinio fengyl Iefu,
Rhwng mynyddau uchel fry.

4 Heddyw mae e' wedi gorphwys,
'Nol ei holl ftwrnion trwm,
Gyda thorf o hardd deuwiolion,
O fewn Mynwent *Cil-y-Cwm*,
Lle na ddaw na gwae na gofid,
Na themptafiwn o un rhyw,
Lle mae pechod, cnawd, a natur,
Er eu rhwyfg yn methu byw.

5 Mae e'n cael ei dalu 'r awr hon,
Am bregethu'r fengyl lan,
Uwch pob ffrwythau cariad brawdol,
Ag a gafodd e' o'r blaen;

Mae

Mae e' heddyw yn nabod rhagor,
Yn holl bynciau dwyfol ras,
Nag mae neb pregethwyr ettto
Sydd ar wyneb daear lâs;

6 Mae ei frychau wedi ei anghofio,
Mae y wisg a fedd e'n awr,
Heb na rhwyg, na ſtain, na gwniad,
Fry o'i goryn hyd y llawr;
Gwiſg a wnaethpwyd ar *Galfaria*,
Ar y groes gan Frenin ne';
Fyth na 'drychwch ar ei feiau,
'Drychwch ar ei fentell e'.

7 Eiddil gwan tan demptaſiwnau,
Ydoedd yſbryd *Jack* erioed;
Rhagor heddyw yw ei ddiolch,
Llawer uwch mae'n canu clod;
Holl wendidau ei natur egwan,
Ag oedd yma bron ei ladd,
Ffindir un o honynt heddyw,
Yno yn y leiaf radd.

MARWNAD WILLIAM JOHN.

1 O *Llywele* ti ddihangaiſt,
Ac a geſt dy draed yn rhydd,
O'r cadwynau fydd gan ſatan,
Yn ein rhwydo ni bob dydd;
Ceſt yn agor rydiau'r afon,
Cym'rodd Iesu di yn ei law,
Ac a'th ddygodd yn ddiofn,
Ac yn iach yr ochr draw.

2 Y mae'r iachadwriaeth hynny,
(Trefn Duwdod cyn bod byd)
Wedi cael ei llwyr ddatguddio
I dy yſbryd heddyw gyd;
Gwnawd dirgelion uwch eu deall,
I ti 'n awr i maes ar g'oedd,
A phob cangen fach o honynt,
Sydd yn hollol wrth dy fodd.

Y mae'r

3 Y mae'r ammod hynny wnaethpwyd,
Gynt rhwng Ieſu mawr a'i Dad,
Mab i wiſgo natur ddynol,
Ac ar groes-bren golli ei waed;
Tad i roddi iddo'n wobr
Briodasferch berffaith lân,
Yn diſgleirio fel yr haulwen,
Oleu hyfryd o dy flaen.

4 O *Llanſawel!* ti geſt golled,
Colli ffrynd, a brawd, a gwas!
Colli colofn o dy eglwys,
Un o'r rhai ffyddlona 'maes;
Colli un oedd pawb yn garu,
Un oedd tan wir ddwyfol nâd,
Neb ni ffeindiodd, neb ni welodd
Fai yn *Llywele-Mawr* erioed.

5 Hyfryd fodlon fod yn ola',
Digenfigen, ufudd was!
Hwn, neu arall, baent yn flina',
William iddynt ildia'r maes;
Oddifewn yr oedd ei dryſor,
Cadwodd raſau'r nef ynghyd,
Heddyw maent yn d'od i'r golwg,
Megis goleu'r borau ddydd.

6 Seren gwympodd yn *Llanſawel*,
Seren ddiſglair gywir iawn,
Gododd gydâ'r wawr yn fywiog,
Ac a ddaliodd hyd brydnawn;
Hi arweiniodd dorf tua *Bethlem*,
Ddeugain mlynedd yn y blaen,
Ac er triſtwch i ryw ganoedd,
Hi ddiflanodd heddyw'n lân.

7 Ond o'i lwch fe gwyd i fynu,
Yn *Llanſawel* cyn b'o hir,
Werin o rai ffyddlon cywir,
I wynebu'r ſanctaidd dir;
Ienctyd fyddant bywiog, cynnes,
A hwy gyflawn gadwant le,
Rhai oddi yno a *Llanſadwrn*,
A *Thal-llyn* [illegible] i'r ne'.

T[illegible] N.

30 63 MAY